"A"

# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 11eg Medi, 2023**, yn Neuadd Goffa, Sarn, o 7.30 p.m. hyd 8.50 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Siôn Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Michael Strain (Is-Gadeirydd)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Carys E. Williams, Glenys Williams, Iwan J. Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

Ymddiheuriad: Y Cynghorydd Efan Thomas

## 43. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod, a llongyfarchodd Y Cynghorydd Michael Strain am lywio'r gweithgareddau yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan. Yr un modd diolchodd i bawb arall fu'n gweithio mor ddyfal dros nifer o fisoedd er rhoi Pen Llŷn ar y map yn ystod yr wythnos arbennig yma ym mis Awst.

## 44. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

## 45. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 10fed GORFFENNAF, 2023

**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 10fed Gorffennaf, 2023.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Iwan James Williams gyda phawb yn cytuno).

**Mater yn codi**

**(a) Eitem 23 Cadarnhau Cofnodion (b) Eitem 29 – Model o Reolau Sefydlog 2023 Cymru**

Rhannwyd y model diwygiedig o Reolau Sefydlog i'r aelodau hynny nad oedd yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf. Bydd y rheolau diwygiedig yn cael eu trafod yn ystod y flwyddyn gan nad oes angen mabwysiadu'r rhain yn syth os 'rydym wedi mabwyiadu'r rheolau cynt yn ddiweddar – y Rheolau cyfredol wedi eu mabwysiadu yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai eleni.

## 46. CEISIADAU CYNLLUNIO

**(1)Adroddwyd** fod y ceisiadau isod wedi eu wedi eu hystyried yn unol a 'hawliau mis Awst' ac fod ymateb 'cefnogi' wedi ei anfon i'r Adran Gynllunio, Cyngor Gwynedd:

Cais C23/0554/32/Ll – codi adeilad amaethyddol i gadw gwellt a pheiriannau – Ty Mawr Capel, Sarn.

Cais C23/0469/32/LL – cais llawn i godi adeilad i'w ddefnyddio fel stablau ceffylau ynghyd a chreu llain galed – Pen y Gongl, Llangwnnadl

**(2)Ystyriwyd** y ceisiadau a ganlyn:

(a) Cais 23/0608/32/RC – tysysgrif defnydd cyfreithlon ar gyfer defnydd preswyl parhaol o garafan – Bryn Teg Bach, Bryncroes
(b) Cais C23/0667/32/DT – cais i adeiladu ances nain a thaid ar iard y fferm – Mynachdy, Sarn Mellteyrn.
(c) Cais C23/0687/32/LL – estyniad ochr er mwyn creu modurdy gyda ffenestr gromen yng ngofod y tô – Bwthyn, Ty Mawr, Bryncroes

**Penderfynwyd**

**i) Datgan y sywladau isod ar gais (a) uchod:**

Nad oedd y Cyngor yn fodlon i gymeradwyo'r cais yma oherwydd, mae safle y garafan ar blot o dir sydd ddim yn rhan o gartref yr ymgeisydd. Pryder y Cyngor oedd, petai y perchennog yn cael caniatad i newid defnydd y garafan o ddefnydd gwyliau i ddefnydd preswyl, buasai yn codi gwerth y safle yn sylweddol, ac ofnir mai bwriad yr ymgeisydd yn y tymor hir yw ymgeisio am hawl cynllunio i godi ty ar y safle neu werthu'r safle fel plot adeiladu. Buasai hyn yn gosod cynsail peryglus ar gyfer cannoedd o berchnogion carafannau statig yng Ngwynedd i ddilyn yr un llwybr.

Yn ychwangeol, mae gwrthwynebiad cryf ymysg trugolion yr ardal tuag at y cais am yr un rhesymau a nodir uchod.

**ii) Cefnogi'r ceisiadau o dan gymal (b) ac (c) uchod.**

(1) **Cyflwynwyd** llythyr gan Owen Devenport Cyf ynglyn a datblygiad arfaethedig ar dir yn Cae Capel, Bownnog – copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen. Trafodwyd y cyfryw a **phenderfynwyd** anfon y sylwadau isod:

(a)Tai fforddiadwy i drigolion lleol allu eu prynu sydd angen ym Motwnnog yn dilyn adborth rydym ni fel Cyngor wedi ei dderbyn gan drigolion y wardiau, nid ystad tai Cyngor arall. Mae dwy ystad o dai Cyngor yn y pentref yn barod, sef Ystad Trewerin ac hefyd Ystad Congl Meinciau a'r teimlad cyffredinol yw nad oes angen mwy o ystadau o'r fath yn y pentref.

(b)Byddai cael deunaw o dai arall ym Motwnnog yn rhoddi straen aruthrol ar wasanaethau megis, dŵr, carthffosiaeth, y Feddygfa, yr Ysgolion a.y. Mae'r gwasanaeth carthffosiaeth a'r dŵr eisoes yn teimlo'r straen gyda'r nifer o dai sydd yn y pentref yn barod.

(c)Petai'r prosiect yma yn cael ei ganiatau byddai dinamig y pentref yn newid yn gyfangwbl a byddai hyn yn drychineb o gofio fod y pentref yn le braf a chyfeillgar i'w fyw ynddo.

ch)Hoffai'r Cyngor dderbyn gwybodaeth beth yw diffiniad 'lleol' yn wyneb y cais am ddeunaw o dai.

(d)Beth fyddai y rhent cyfartalog y mis ar y tai arfaethedig?

Hefyd tynnwyd sylw nad oedd pawb o'r trigolion lleol wedi derbyn llythyr cyffelyb i'r un a dderbyniwyd gan y Cyngor – gofyn beth yw'r rheswm am hyn? Hefyd holi a yw Meddygfa Rhydbach a'r ddwy Ysgol wedi cael cyfle i ddatgan eu barn ar y cais arfaethedig?

47. **MYNWENT LLANDEGWNNING**

**Cyflwynwyd**

(a) Llythyr gan Mr. Geraint Hughes, Bronllwyd Bach, Botwnnog ar ran Cyfeillion Eglwys Llandegwnning, yn gwneud cais am gymorthdal am dorri'r gwellt yn y Fynwent. Hefyd gofynnod am farn "y cyngor am rannu costau torri y gwrych rhwng y ddwy fynwent? Y syniad oedd gen i byddai y cyngor yn gyfrifon am dorri y ddwy ochr ar ddechrau yr haf a'r cyfeillion yn talu am y gwaith yn yr Hydref."

Tynnodd sylw hefyd at y llwybr/Llwybrau "sydd yn dod i fyny o Ty'n y Big trwy dir Bronllwyd Bach. Mae'r llwybr sydd yn mynd ymlaen drwy Dyddyn Corn wedi cau yn llwyr a does dim unrhyw math o arwydd ffordd mae fod i fynd ar ôl cael ei ddargyfeirio nifer o flynyddoedd yn ôl. Mae llawer mwy o bobl yn cerdded y ddyddiau yma ac yn aml yn crwydo yn ddibwrpas dros y caeau yma…."

**Penderfynwyd** ymateb i lythyr Mr. Geraint Hughes:

(i)fod angen iddo gyflwyno cais ynghyd a mantolen ariannol am gyfraniad ariannol a bydd y cyfryw yn cael ei ystyried ym mis Ionawr, 2024.
(ii)na ellir cytuno i rannu'r gôst o dorri'r gwrych gan fod y Cyngor eisoes wedi torri eu hochr nhw yn nechrau'r tymor.
(iii)fod ei ymholiad ynglyn a'r llwybr yn cael ei anfon ymlaen i'r Swyddog Llwybrau yng Nghyngor Gwynedd.

**(b) Tynnodd** y Clarc sylw at sylwadau dderbyniodd ynglyn a chyflwr y fynwent. **Penderfynwyd** anfon gair caredig at yr Ymgymerwr gan ofyn iddo hefyd dacluso'r llwybr ac o gwmpas y giat.

(c) **Ymhellach** tynnodd y Clarc sylw fod angen ail wneud cynllun o'r fynwent gan nad yw'n gywir fel ac y mae. Dywedodd Y Cynghorydd Glyn Roberts y byddai ef yn gwneud hyn a diolchwyd iddo.

48. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

**Penderfynwyd**

(1) anfon gair at berchennog Tan-y-ffordd, Penygroeslon, yn gofyn iddo dorri'r gwrych yn ôl oherwydd y diffyg gweledlad i'r briffordd.
(2) Gofyn i'r Adran Ffyrdd pam fod dau doriad yn cael ei wneud ochr Pengopa i groesffordd Siop Lwyd a dim ond un toriad ochr Tan-y-Ffordd.
(3) Gofyn i'r Adran Priffyrdd dorri'r tyfiant yn ôl ar gyffordd Trewen oherwydd diffyg gweledlad i'r briffordd.

49. **AWDURDOD I DALU**

**(a) Adroddwyd** fod taliad o £205 + TAW (200796) wedi ei wneud i Gyngor Gwynedd am achwilio'r cyfrifon a hynny yn unol a'r hawl a roddwyd ar gyfer taliadau a fyddai'n dod yn ddyledus yn ystod mis Awst. **Cadarnhawyd** y gweithrediad.

**(b) Penderfynwyd** awdurdodi'r taliad a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Y Clarc | £420.00 (200797) |
| HMRC | £105.00 (200798) |
| Gwenda Roberts (ad-daliad o gostau postio i Archwilio Cymru) | £ 11.15 (200799) |

**Yn y cyswllt hwn** adroddwyd fod cosb wedi ei dderbyn oddi wrth HMRC am fethiant i ffeilio ffurflen mewn pryd. 'Roedd y Clarc wedi ffeilio pob ffurflen ond yn dilyn i'r Cynghorydd Carys H. Evans wneud ymholiadau cafwyd ar ddeall fod angen ffeilio'r ffurflen berthnasol yn fisol yn hytrach na chwarterol er mai yn chwarterfol caiff y Clarc ei thalu. 'Roedd rhaid talu'r ddirwy o £100 'nawr ond fod llythyr o apêl i'w wneud i'r HMRC ac addawodd y Cynghorydd Evans y byddai'n helpu gyda hyn.
**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliad o £100 (200800) ac anfon llythyr o apêl at yr HMRC.

50. **CYRSIAU UN LLAIS CYMRU**

**Rhanwyd** restr o gyrsiau gynigir gan Un Llais Cymru.
Ei adael ar y bwrdd am y tro

51. **PLANNU COED CYNHENID YN YR AHNE**

**Cyflwynwyd** e-bost dderbyniwyd oddi wrth Bleddyn Jones, Swyddog AHNE Llyn yn hysbysu fod "cyllid gan Llywodraeth Cymru i blannu coed cynhenid yn yr ardal. Y rheswm am hyn yw pwysigrwydd coed o ran amsugno carbon a'u cyfraniad i fywyd gwyllt." Gofynnodd a oedd gan y Cyngor unrhyw safle(oedd) i'w hystyried.
**Penderfynwyd** awgrymu y Comin Bach ym Mryncroes ac hefyd Rhos Botwnnog gan nodi nad oedd y safle yma o dan ofalaeth y Cyngor.

52. **HOLIADUR CYMUNEDAU GWYNEDD**

**Penderfynwyd** ymateb i'r holiadur :
nad oedd unrhyw faterion angen sylw mewn perthynas a ffiniau presennol y gymuned;
fod y Cyngor yn hapus gyda nifer y Cynghorwyr;
fod y Cyngor yn hapus gyda'r wardiau cyfredol.

53. **LLOCHES BWS A.Y.**

**Atgoffwyd** y Cyngor am yr angen i ystyried gwneud cais am hysbysfyrddau, lloches bws a.y.

**Penderfynwyd** ystyried y cais yn ystod y misoedd nesaf, ond yn y cyfamser ystyried rhoi slabiau o dan y potiau blodau yn y pum safle ac hefyd gwneud ymholiadau ynglyn a'r gôst o'u haddurno gyda phlanhigion y gaeaf.

54. **SEFYLLFA ARIANNOL**

**Cyflwynwyd** taenlen yn dangos y sefyllfa ariannol hyd ddiwedd Awst, 2023.
**Penderfynwyd** ei nodi a'i dderbyn. Bydd y ddogfen yma yn rhan o'r cofnodion.

55. **CAE CHWARAE SARN**

**Adroddodd** y Cadeirydd fod y rhai oedd yn gofalu am gae chwarae Sarn wedi gofyn iddo tybed a fyddai modd cael cymorth i dorri'r glaswellt gan ei fod ef a'I frawd yn disgwyl llawdriniaeth, er nad oedd cyfrifoldeb o gwbl yn disgyn ar y Cyngor i gynnal a chadw'r tir yma.

**Addawodd** y Cynghorwyr Siôn Williams, Gareth Williams Glyn Roberts y byddant yn barod i gynorthwyo y tro hwn, gyda'r Cynghorydd Iwan James Williams yn datgan ei barodrwydd hefyd yn dilyn y Cyngor.

56. **PETHAU BYCAIN 2023**

**Nodwyd** fod gwybodaeth wedi dod ddiwrnod y Cyngor am gyfarfod 'Pethau Bychain' ar 27ain Medi, 2023 – pwrpas 'Pethau Bychain' yw rhydwaith gwyrdd ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref pryd mae hwb ar-lein newydd wedi ei greu ac sydd "yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion amgylcheddol, polisiau a chyllid, a rhannu arfer a syniadau gorau." Os oes rhywun yn dymuno cofrestru yna dyma'r linc:
https://forms.office.com/e/KCz4Puzc5y